



Pecyn
Mathemateg
Teulu

1

5

Gweithgareddau Mathemateg i'r Teulu Blwyddyn Derbyn

+

R

E

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:

enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

 National
Numeracy
Getting on with numbers



1

2

3

4



Rhagarweiniad

Nod yr adnodd teuluol hwn, sydd wedi'i brofi i fod yn gwella hyder plant a rhieni mewn mathemateg, yw hyrwyddo mwynhad o fatemateg drwy drafod a gweithio gyda'n gilydd ar fatemateg bob dydd.

Mae'r pecyn hwn gan National Numeracy yn cynnwys gweithgareddau byr, hwyliog ar sail 'bywyd go iawn' i deuluoedd eu gwneud gyda'u plant, gyda ffocws cryf ar ddatrys problemau a rhesymu.

Mae'n cynnwys 36 o weithgareddau. Yn y pecyn hwn, maen nhw wedi eu trefnu i fynd yn raddol anoddach – ond gellir eu dewis i gyd-fynd â'r maes cwricwlwm y mae eich plant yn gweithio arno.

Nid yw'r taflenni gweithgaredd unigol yn dangos grŵp blwyddyn nac oed, dim ond codau lliw fel y gallwch ddweud y gwahaniaeth. Dylid nodi bod y lefel yn seiliedig ar ddisgwyliadau cyfartalog ar gyfer y grŵp blwyddyn – gallai'r plant fod yn gweithio ar lefel is neu uwch, felly defnyddiwr weithgareddau o grwpiau blwyddyn eraill os oes angen.

Mae'r pecyn yn cynnwys:

- Trosolwg yn awgrymu sut y gallwch rannu'r gweithgareddau yn ôl tymor ysgol a phwnc rhifedd.
- 36 o weithgareddau, yn y drefn a roddir yn y trosolwg.
- 3 taflen atebion, un i bob tymor (cofiwr fod llawer o'r gweithgareddau wedi eu dylunio i fod yn benagored felly rhoddir atebion ond i weithgareddau sy'n gofyn am ateb).

Ar gyfer ysgolion

Argymhellwn y dull canlynol i ysgolion sy'n defnyddio'r gweithgareddau:

- Dull dosbarth cyfan neu hyd yn oed ddull ysgol gyfan.
- Os yw'r plant yn gweithio'n uwch neu'n is na'r disgwyliadau ar gyfer eu hoed, dewiswch weithgaredd o grŵp blwyddyn arall.
- Cynnal gweithdy i fodelu trafodaethau'r gweithgareddau i rieni llai hyderus.
- Pwysleisio y gall unrhyw aelod o'r teulu weithio gyda'r plentyn ar y gweithgaredd.
- Os nad oes oedolion yn helpu allan yn y cartref, awgrymwn ddod o hyd i ffrind ysgol hŷn i helpu mewn clwb ar ôl ysgol neu gyn-ysgol.
- Nid oes raid i'r rhiant / gofalwr fod ag unrhyw wybodaeth arbennig am fatemateg neu offer ysgol.
- Annog y plant i fod yn greadigol: tynnu lluniau neu ffotograffau, ysgrifennu cyfrifiadau neu greu diagramau.
- Annog yr oedolyn a'r plentyn i ddefnyddio'r blwch sylwadau i fyfyrto a'ch helpu chi i ddeall beth y maen nhw'n ei feddwl o bob gweithgaredd.
- Arddangos gweithgareddau a gwblhawyd fel bo'r plant a'r teuluoedd yn gallu dysgu oddi wrth ei gilydd nad un ffordd yn unig sydd o ddatrys problem ond sawl ffordd.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

1

2

3

4



Ar gyfer rhieni a gofalwyr

Sut bynnag y teimlwch am fathemateg, gallwch wneud gwahaniaeth mawr i sut y mae plant yn dysgu rhifedd.

Mae'r dystiolaeth i gyd yn dangos bod siarad am fathemateg pob dydd yn magu hyder plant mewn mathemateg. Dyma rai cwestiynau y gallwch ofyn i'ch gilydd wrth wneud y gweithgareddau:

- Beth sydd angen ei wneud?
- Pa wybodaeth sydd gennym ni? Beth sydd angen ei ddarganfod?
- Fyddai offer yn helpu?
- Beth sylwch chi arno pan...?
- Ddylen ni ddyfalu'r ateb i weld?
- Beth allwn ei wneud os awn yn styc?
- Os byddwn yn gwneud hyn eto, allen ni wneud rhywbeth yn wahanol?

Gallwch addasu'r gweithgareddau i ddiddordebau eich teulu a defnyddio unrhyw eitemau sydd wrth law, yn y cartref neu'r tu allan.

Gallech dynnu lluniau neu ffotograffau, ysgrifennu cyfrifiadau neu greu diagramau - i fyny i chi!

Defnyddiwch y sylwadau i fyfrio ar eich trafodaethau a meddyliau wrth wneud y gweithgaredd gyda'ch gilydd.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copio, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Nodyn i blant blwyddyn derbyn a theuluoedd



Awgrymiadau ar gyfer gweithio gyda'ch plentyn:

- Canmol ymdrech
- Dewis amser pryd nad yw eich plentyn wedi blino neu'n gyndyn
- Mae sesiynau byr ac yn aml yn well – 5-10 munud yn ddigon
- Mwynhewch y gweithgareddau gyda'ch gilydd – mae hyn yn magu hyder
- Cofiwch annog a rhoi gwybod i'r athro / athrawes os oes unrhyw anhawster penodol

(**Nodyn i athrawon:** Rhowch yr awgrymiadau hyn yn llyfrau lloffion yr holl blant yn y Dosbarth Derbyn, neu gallai'r plant fynd â nhw adref gyda'r gweithgareddau os nad ydych yn defnyddio'r llyfr lloffion.)

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copio, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Trosolwg a Chysylltiadau Cwricwlwm Dosbarth Derbyn



Tymor	Pwnc	Gweithgareddau	Prif Gysylltiad i'r Cwricwlwm	Hefyd yn trafod
Hydref	Rhifau (gwerth lle)	Bingo dis Parau cyfatebol Chwarae chwilog Y rhif 5 Gwneud 10	Sybiteiddio Sybiteiddio, unfath a gwahanol Sybiteiddio, cyfrif i 6 Adnabod 5 Cyfrif i 10; rhoi'r rhifau mewn trefn	
	Rhifau (cyfrifiadau)	Dau gi	Bondiau rhif i 10 gan gynnwys ffeithiau dwbl	
	Patrwm a siâp	Y goeden Nadolig ddirgel Siapiau bwyd	Sgiliau rhesymu gofodol - siâp Sgiliau rhesymu gofodol - siâp	Siapiau 2D Siapiau 2D
	Mesurau	Dail yr hydref Pwysau ffrwythau	Sgiliau rhesymu gofodol - mesurau Sgiliau rhesymu gofodol - mesurau	Hyd Pwysau
	Safle	Tedis mewn ciw	Geirfa ar gyfer patrymau, 1af, 2il, olaf	Iaith safleoedd
	Arian	Adnabod darnau arian	Sgiliau rhesymu gofodol - mesurau	Darnau arian 1c, 2c, 5c, 10c

Trosolwg a Chysylltiadau Cwricwlwm Dosbarth Derbyn



Pecyn
Mathemateg
Teulu

Tymor	Pwnc	Gweithgareddau	Prif Gysylltiad i'r Cwricwlwm	Hefyd yn trafod
Gwanwyn	Rhifau (gwerth lle)	Rholio drosodd Pâr o sanau Gwiwerod	Cyfrif yn ôl at sero Cyfrif yn hyderus, adnabod patrymau, dyblau, odrifau ac eilrifau Cyfrif i 20, adnabod meintiau, mwy na, llai na, yr un fath	Cyfrif bob yn 2 Rhannu grwpiau cyfartal / anghyfartal (hafal / anhafal)
	Rhifau (cyfrifiadau)	Te-parti Cyw Trychfilod Bondiau rhif hyd at 10 Gweld dwbl Jiraffs a hipos	Cymharu meintiau hyd at 10 Bondiau rhif hyd at 10 Bondiau rhif hyd at 10 Sybiteiddio Sybiteiddio: 'cynnig arni' a siarad	Cyfateb un i un Adio / tynnu Dyblau Amcangyfrif
	Patrwm a siâp	Adeiladu siapiau 3D Patrymau wyau Pasg	Sgiliau rhesymu gofodol - siâp Patrymau a pherthnasoeedd	Nodweddion siapiau 3D
	Mesurau	Elen Benfelen a'r Tair Arth	Sgiliau rhesymu gofodol - mesurau	Capasiti, dwbl, hanner
	Amser	Amser	Amseroedd o'r gloch	
	Arian	Dawns y Llew o Tsieina	Cyfrif i 20, adnabod meintiau, mwy na, llai na, yr un fath	Cyfrif arian £1

Trosolwg a Chysylltiadau Cwricwlwm Dosbarth Derbyn



Tymor	Pwnc	Gweithgareddau	Prif Gysylltiad i'r Cwricwlwm	Hefyd yn trafod
Haf	Rhifau (gwerth lle)	Lawr y Neidr Fyny'r Ysgol	Cyfrif ar ôl 20, system gyfrif patrwm rhif	Iaith safleoedd Rhifau hyd at 100
	Rhifau (cyfrifiadau)	Claddu esgyrn Dyblau hyd at 10 Treialon cŵn defaid Ffarmwr a'i fuchod	Bondiau rhif hyd at 10; cymharu meintiau Bondiau rhif hyd at 10; dyblau Cyfrif hyd at 20; cymharu meintiau Cymharu meintiau	Grwpio, datrys problemau 'Cynnig arni' a siarad Grwpiau o 2, gweddillion
	Mesurau	Tri mochyn bach Dail yr haf Bisgedi	Sgiliau rhesymu gofodol - mesurau Sgiliau rhesymu gofodol - mesurau Sgiliau rhesymu gofodol - mesurau	Ffracsiynau - hanner/chwarter Hyd Datblygu geirfa
	Arian	Poced Chetan Cost eis-loli	Sgiliau rhesymu gofodol - mesurau Sgiliau rhesymu gofodol - mesurau	Adnabod darnau arian Defnyddio darnau arian

*Mae angen ei argraffu mewn lliw

Bingo dis



Pecyn
Mathemateg
Teulu

Chwaraewch gêm o fingo gyda'ch gilydd.

Copïwch y grid isod ar gyfer pob person.

4	1	5
6	2	3



Cymrwch o yn eich tro i rolio dis. Os rholiwch rif sydd ar eich cerdyn, gallwch ei liwio neu orchuddio. Dim ond y person sy'n rholio all liwio neu orchuddio'r rhif.

Pwy yw'r cyntaf i liwio neu orchuddio eu rhifau i gyd?

Gair o gyngor: Gallech wneud gridiau gwahanol i bob person sy'n chwarae. Anogwch eich plentyn i adnabod y patrwm dotiau cyn eu cyfrif.

Sylwadau teulu:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Sybiteiddio – adnabod y patrwm dotiau i gynyrychioli rhifau a'u paru gyda'r symbol.

Sylwadau plentyn:

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Parau cyfatebol



Pecyn
Mathemateg
Teulu

Pwy sy'n gallu dod o hyd i'r mwyaf o barau cyfatebol?

Torrwch y cardiau dis allan a'u troi drosodd. Cymysgwch nhw. Mae pob person yn troi dau gerdyn drosodd – os ydyn nhw'n cyfateb, cadwch nhw fel pâr. Os nad ydyn nhw'n cyfateb, rhaid eu troi'n ôl drosodd yn yr un lle.

Gair o gyngor: Cyfrwch y dotiau cyn i'r gêm ddechrau. Gwnewch yn siŵr fod eich plentyn yn adnabod, er enghraifft, patrwm 5. Siaradwch drwy gydol y gêm - e.e. fedri di gofio pryd welais dî'r 3 o'r blaen? Siaradwch am yr un fath a gwahanol.



Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk













familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Parau cyfatebol



Pecyn
Mathemateg
Teulu



Sylwadau teulu:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Sybiteiddio –
adnabod patrymau
i glynrychioli rhifau,
datblygu sgiliau cofio.

Sylwadau plentyn:

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copio, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Chwarae chwilog




Pecyn
Mathemateg
Teulu

Chwaraewch y gêm 'Chwilog' drwy gymryd o yn eich tro i daflu dis. Os taflwch 1, gallwch dynnu llun corff; 2 yw'r pen; 3 yw dau antena; 4 yw 6 coes; 5 yw'r llygaid a 6 i dynnu llun cynffon ar eich chwilen. Y cyntaf i orffen sy'n ennill.

Pwy fydd y cyntaf i orffen eu chwilen? Ar ôl ennill, gallwch ychwanegu trwyn a cheg!

Gair o gyngor: Gall unrhyw nifer o bobl chwarae'r gêm hon; gallwch wneud y gêm yn anoddach drwy ddweud na allwch ychwanegu antenae na choesau nes bod gennych y pen neu'r corff. Gallech hefyd ddweud y gallwch ond tynnu llun un goes (neu un llygad, neu antena) pob tro y rholiwch 4 (neu 5 neu 3), yn lle pob un.



Sylwadau teulu:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Sybiteiddio – adnabod patrymau dotiau ar ddis sy'n cynrychioli rhif, cyfrif yn dda i 6.

Sylwadau plentyn:

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copio, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Gwneud 10



Pecyn
Mathemateg
Teulu

Allwch chi hopian ar un goes
10 o weithiau?


Allwch chi glasio 10 o weithiau?

Beth arall allwch chi ei wneud 10 o weithiau a chyfrif?

Allai eich teulu cyfan wneud hyn?

Dyma lun dot-i-ddot. Llun o beth fydd o chi'n meddwl?

Allwch chi greu un gyda'ch teulu?



Sylwadau teulu:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Cyfrif yn dda gyda'r rhifau 1 i 10, gosod rhifau mewn trefn.

Sylwadau plentyn:

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copio, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Y rhif pump - 5



Pecyn
Mathemateg
Teulu


Faint o weithiau allwch chi ddangos 5 neu ddod o hyd i'r rhif 5?

Dyma rai syniadau:

- Y rhif 5 ar gloc
- Y rhif 5 ar ddeial y peiriant golchi dillad
- Faint o lythrennau sydd yn y gair **C A C E N**
- Dotiau ar ddis

Faint o ffyrdd eraill allwch chi feddwl
amdanyst?

Gair o gyngor: Meddyliwch pan fyddwch yn
y tŷ neu'n gwneud pethau allan o'r cartref.
Gallwch wneud 'pawen lawen' wrth ddod o
hyd i 5.



Sylwadau teulu:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Adnabod 5.

Sylwadau plentyn:

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copio, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Dau gi



Pecyn
Mathemateg
Teulu

Mae dau gi, Pero a Mot, yn chwarae yn y coed gyda phêl.

- Faint o gynffonnau?
- Faint o drwynau?
- Faint o beli?
- Faint o goesau?
- Faint o glustiau?

A oes mwy o gwestiynau y gallech eu gofyn?

Tynnwch lun anifail arall a allai chwarae gyda nhw gan wneud un gynffon arall i’w chyfrif.

Gair o gyngor: Siaradwch am yr un fath, gwahanol, dwbl, un yn fwy na, un yn llai na, gan gofio bod eich plentyn yn pwyntio a chyfrif, gan sôn am un goes ôl na ellir ei gweld ond y dylid ei chyfrif!

Sylwadau teulu:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Bondiau rhif i 10 gan gynnwys ffeithiau dwbl.

Sylwadau plentyn:

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Y goeden Nadolig ddirlgel



Tynnwch lun goeden Nadolig heb addurniadau.

Rŵan tynnwch lun 6 o wahanol addurniadau ar eich coeden - mewn gwahanol liwiau a siapiau.

Peidiwch eu dangos i’ch teulu.

Yna gofynnwch i rywun yn eich teulu dynnu llun coeden heb addurniadau. **Ni ddylen nhw weld beth ydych wedi tynnu llun.** Ar ôl tynnu llun eu coeden, byddwch yn dweud wrthynt ba addurniadau i dynnu llun a ble i roi’r addurn.

Gawson nhw bob un yn iawn?

Newidiwch le, nhw sydd i ddewis yr addurniadau a’u disgrifio i chi, chi sydd i dynnu llun.

Gair o gyngor: Ceisiwch annog iaith fathemategol, er enghraifft ‘cylch’ nid ‘crwn’ i ddisgrifio siâp. Os nad yw’r plentyn yn siŵr gallech ddweud ‘mae gan fy siâp 3 ochr ac mae’n driongl’.



Sylwadau teulu:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Cyfre i’r plant gael datblygu eu sgiliau rhesymu gofodol ym mhob un o’r meysydd mathemateg, gan gynnwys siapiau.

Sylwadau plentyn:

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk




Siapiau bwyd



Pecyn
Mathemateg
Teulu

Meddyliwch am siâp rhai o'r bwydydd a fwytewch.

Ydych chi'n bwyta rhai o'r siapiau hyn?



Allwch chi dynnu eu llun?

A oes unrhyw siapiau eraill a allai fod yn eich bwyd?

Allech chi wneud siâp gwahanol o fwyd?

Gair o gyngor: Siaradwch am gylchoedd, sgwariau, hirsgwariau, trionglau ac unrhyw siapiau eraill. Lle bo'n bosib, gwnewch siapiau o frechdanau, bisgedi, pitsas, ac ati. Siaradwch am faint o ochrau syth a faint o ochrau crwn sydd.

Sylwadau teulu:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Cyfre i'r plant gael datblygu eu sgiliau rhesymu gofodol ym mhob un o'r meysydd mathemateg, gan gynnwys siapiau.

Sylwadau plentyn:

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copio, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Dail yr hydref



Pecyn
Mathemateg
Teulu

Casglwch ychydig o ddail yr hydref – pa un yw'r hiraf?


Ydy hi'n hirach na'ch llaw?

Pa un yw'r fyrraf?

Beth allech chi ddefnyddio i fesur y ddeilen?

Allwch chi dynnu llun 4 o'ch dail yn nhreft maint, o'r fyrraf i'r hiraf? (gallech dynnu llun eu hamlinell).

Gair o gyngor: Cymharwch ddail i siarad am hyd. Dyfalwch ba un sydd hiraf cyn gwirio ei hyd. Defnyddiwch ddwylo, bysedd, ciwbiau neu bethau eraill i fesur. Dylech ond defnyddio pren mesur os yw eich plentyn yn hyderus yn defnyddio unedau hyd ansafonol, fel dwylo neu gownteri.



Sylwadau teulu:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Cyfre i'r plant gael datblygu eu sgiliau rhesymu gofodol ym mhob un o'r meysydd mathemateg, gan gynnwys mesurau.

Sylwadau plentyn:

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copio, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Pwysau ffrwythau



Pecyn
Mathemateg
Teulu

Dewiswch hoff dedi-bêr neu degan meddal.
Daliwch o mewn un llaw. Yna ei ddal yn y llaw arall.

Teimlwch ba mor **drwm** ydy o.

Allwch chi ddod o hyd i dri darn o ffrwyth neu lysiau sy'n **drymach** na'ch tegan? Daliwch eich tegan mewn un llaw a'r darn o ffrwyth yn y llall i deimlo'r **gwahaniaeth**.

Allwch chi ddod o hyd i 3 sy'n **ysgafnach na'ch tegan?**

Gair o gyngor: Anogwch eich plentyn i ddewis tegan heb fod yn rhy drwm er mwyn gallu dod o hyd i ffrwythau trymach ac ysgafnach.



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Cyfle i'r plant gael datblygu eu sgiliau rhesymu gofodol ym mhob un o'r meysydd mathemateg, gan gynnwys mesurau.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk


familymathstoolkit.org.uk

Tedis mewn ciw



Pecyn
Mathemateg
Teulu

Dowch o hyd i 7 tedi-bêr (neu deganau eraill). Bydd y tedis yn mynd ar bicnic a bydd angen dal bws.




Rhowch nhw mewn llinell. Pwy yw'r cyntaf yn y llinell?
Pwy yw'r trydydd? Pwy yw'r pumed?

Mae'r tegan olaf yn crïo - symudwch o i fod yn ail. Pwy sydd olaf rŵan?

Tynnwch lun o'r teganau a'u labelu'n 1af, 2il...

Gair o gyngor: Y tu allan i'r cartref, cysylltwch hyn i giwiau go iawn a welwch.



Sylwadau teulu:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Datblygu geirfa ar gyfer patrymau a pherthnasaoedd – trefnolion, 1af, 2il...olaf.

Sylwadau plentyn:

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copio, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Adnabod darnau arian



Pecyn
Mathemateg
Teulu

Dowch o hyd i bum darn arian – cymysgedd o rai 1c, 2c, 5c a 10c.

Rhowch nhw o’ch blaen a siarad am beth a welwch ar bob ochr i un darn. Dywedwch beth yw gwerth y darnau arian.

Cymrwch o yn eich tro i’w cuddio gyda’ch llaw a thynnu un allan yn ddistaw bach. Yna dangoswch y rhai sydd ar ôl. All y person arall ddweud pa ddarn sydd ar goll?

Os gallwch chwarae’r gêm yn dda, adiwch fwy o ddarnau i’w gwneud yn anoddach.

Gair o gyngor: Anogwch y plentyn i enw’r darn arian wrth ei werth, er enghraift 2c; gallai’r plentyn ofyn am gliwiau fel ‘ydy o’n lliw arian?’ neu ‘ai’r darn lleiaf ydy o?’



Sylwadau teulu:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Cyflie i’r plant gael datblygu eu sgiliau rhesymu gofodol ym mhob un o'r meysydd mathemateg, gan gynnwys mesurau.

Sylwadau plentyn:

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Troi drosodd



Pecyn
Mathemateg
Teulu

Canwch 'Roedd 'na 10 yn y gwely' gyda'ch gilydd:

'Roedd 'na 10 yn y gwely, meddai'r lleia'n codi fyny


Trowch drosodd...trowch drosodd...

Wrth i bawb droi drosodd dyma un yn cwympo mas.

'Roedd 'na 9 yn y gwely, meddai'r lleia'n codi fyny..."

Dylid parhau nes y bydd r'un ar ôl yn y gwely.

Gair o gyngor: Mae'n hwyl gwneud hyn gyda'r tedis wrth ganu, gan atgyfnerthu beth sy'n digwydd i'r rhifau wrth gyfrif yn ôl, ond hefyd beth y mae 'r'un / neb / dim' (sero) yn ei feeddwl. Stopiwch weithiau a gofyn faint sydd ar ôl. Faint sydd wedi cwympo allan? Faint oedd 'na i ddechrau?



Sylwadau teulu:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Cyfrif yn ôl bob yn un; adnabod gwerth sero (r'un / dim / neb).

Sylwadau plentyn:

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfrain © National Numeracy 2021. Ni cheir copio, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Parau o sanau



Pecyn
Mathemateg
Teulu

Dyma barau o sanau. Faint o barau o sanau sydd yma?



Allwch chi gyfrif pob hosan drwy bwyntio ati? Faint o sanau sydd yma?

Rŵan cyfrwch bob pâr o sanau bob yn 2. Beth welwch chi?

Allwch ddod o hyd i barau o bethau eraill yn eich cartref (e.e. cyllyll a ffyrc).
Tynnwch lun ohonynt a chyfrif bob yn 2.

Sylwadau teulu:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Cyfri'n hyderus ac
adnabod patrymau
mewn rhifau gan
gynnwys dyblau,
odrifau ac eilrifau.

Sylwadau plentyn:

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copio, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Gwiwerod



Pecyn
Mathemateg
Teulu

Mae Wena'r wiwer wedi dod o hyd i
20 o gnau.

Roedd yn gyffro i gyd ac aeth â nhw i
ddangos i'w ffrindiau – Siw, Siân a Siôn.
Roedd pawb wedi cynhyrfu'n rhacs gan
ddweud “Gawn ni rai hefyd?”

“Na, na!” meddai Wena, “fi ffeindiodd
nhw felly fi piau nhw.”

Beth ddylai Wena ei wneud? Beth fyddai'n deg?



Gair o gyngor: Defnyddiwch deganau a chownteri (neu debyg) i gyfrif a phenderfynu faint o gnau i'w rhoi i bawb. Anogwch eich plentyn i gyffwrdd a symud pob 'cneuen' a chyfri'r pentyrallau o gnau. Siaradwch am gyfartal, teg, un yn fwy na, un yn llai na. Trafodwch pam ei bod yn deg (nid oes rhaid i'r pentyrallau fod yn gyfartal i fod yn deg yn yr achos hwn - gallai eich plentyn penderfynu mai Wena sydd i gael y pentwr mwyaf; y siarad a'r rhesymu sy'n bwysig).

Sylwadau teulu:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Cyfrif i 20: adnabod pan fydd un maint yn fwy na, llai na neu'r un fath / yr un faint â'r maint arall.

Sylwadau plentyn:

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copio, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Te-parti Cyw



Pecyn
Mathemateg
Teulu

Mae Cyw'n cael te-parti pen-blwydd ac wedi gwahodd Bolgi, Llew, Jangl a Plwmp.

Faint o gyllyll a ffyrc fydd angen eu gosod ar y bwrdd?
Faint o lwyau? Faint o gwpanau?

Pwy arall allai ei wahodd i'r parti? Faint o bethau ychwanegol fydd ei angen arno felly? Tynnwch lun o'r bwrdd te-parti – beth arall allai ei roi ar y bwrdd?
Faint sydd ei angen?

Gair o gyngor: Siaradwch am faint yn fwy o ffyrc fydd ei angen? Ychwanegwch bethau fel tebot. Ehangwch ar hyn drwy siarad am faint o gwibiau siwgr fydd ei angen. Os nad yw eich plentyn yn gyfarwydd â'r stori hon, gallech ddefnyddio stori wahanol – er enghraifft 'Y Teigr a Ddaeth i De'.



Sylwadau teulu:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Cymharu meintiau hyd at 10 mewn cyd-destun, chwilio am batrymau.

Sylwadau plentyn:

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk


Trychfilod





Pecyn
Mathemateg
Teulu

Mae gan bob trychfil ddu
antennae. Mae'r rhifau yn yr
antennae'n adio i'r rhif ym
mhen y trychfil.

Dyma enghraift.



Allwch chi gwblhau'r rhain?
(Defnyddiwch gownteri os oes angen).



Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk


Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copio, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Trychfilod



Pecyn
Mathemateg
Teulu

Allwch chi dynnu llun rhai i'ch teulu eu cwblhau?



Gair o gyngor: Pan fydd eich plentyn yn gallu adio'r ddau rif yn hyderus, siaradwch am sut bydd 4-1 yn rhoi 3 a 4-3 yn rhoi 1. Mae modd defnyddio'r chwiliod i adio neu i dynnu. Os yw'n eithaf anodd, rhowch 4 cownter (neu resinen, siâp pasta) yn y cylch a thynnw 3 i'w rhoi mewn cylch llai. Faint sydd ar ôl? Rhowch yr 1 yn y cylch llai arall. Siaradwch am sut mae'n dal yn 4 ond rydych chi wedi gwneud rhannau o 4.

Sylwadau teulu:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Bondiau rhif hyd at 10

Sylwadau plentyn:

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copïo, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Bondiau rhif hyd at 10



Pecyn
Mathemateg
Teulu

Chwaraewch gêm 'Bondiau Rhif hyd at 10'. Gallech ddefnyddio:

- y Ffrâm Ddeg isod – neu flocs wyau gwag gyda 10 'twll' yn ddo
- 10 o bethau bach fel cownteri, pasta sych, cerrig neu ddail

Mae'r chwaraewr cyntaf yn dechrau drwy roi rhai eitemau yn y Ffrâm Ddeg neu'r bocs wyau.

Rhaid i'r chwaraewr arall roi'r nifer gywir o eitemau i lenwi gweddill y 'tyllau'.

Siaradwch am 'mae 1 a 9 arall yn gwneud 10' ($1 \times 9 = 10$) neu 'mae 4 a 6 yn gwneud 10', ayyb.

Beth sy'n digwydd os yw'r person cyntaf yn rhoi 10 eitem yn y ffrâm?

Beth os ydyn nhw'n rhoi 0 eitem yn y ffrâm?



Sylwadau teulu:



Cysylltiad Cwricwlwm:


Creu dealltwriaeth o fondiau rhif hyd at 10, yn defnyddio 10 ffrâm, gan gynnwys ffeithiau dwbl.

Sylwadau plentyn:

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Bondiau rhif hyd at 10



Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copio, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Gweld dwbl




Pecyn
Mathemateg
Teulu

Cymrwch o yn eich tro i rolio'r dis ddwywaith (neu ddau ddis os oes gennych ddau).

Pob tro y mae un ohonoch yn taflu dwbl (yr un rhif ddwywaith), gwnewch nodyn o'r rhif a thynnu llun wyneb gwenu.

Pwy fydd y cyntaf i gael 5 wyneb gwenu?

Gair o gyngor: Magwch hyder mewn adnabod nifer o sbotiau heb eu cyfrif - siaradwch am sut y mae pump bob amser yn cael ei ddangos fel hyn ar ddis. Os ydyn nhw'n ansicr, helpwch eich plentyn i gyffwrdd pob sbotyn wrth gyfrif. Siaradwch am faint o ddotiau sydd ar ddyblau - er enghraift mae 3 a 3 yn rhoi 6.



Sylwadau teulu:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Sybiteiddio - adnabod patrwm dotiau heb gyfrif; adnabod dyblau.

Sylwadau plentyn:

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copio, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Jiraffs a hipos



Pecyn
Mathemateg
Teulu

Heb gyfrif, allwch chi roi amcan (dyfalu) faint sydd yno?



Rŵan cyfrwch drwy bwyntio at bob jiráff
- oeddech chi'n iawn?



Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copio, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Jiraffs a hipos



Pecyn
Mathemateg
Teulu

Dyma lun anoddach o hipos.
Ceisiwch roi amcan o faint
sydd yno heb gyfrif.

Rŵan cyfrwch drwy bwyntio at
bob hipo. Oeddech chi'n agos
at y rhif cywir?

Allwch chi ddod o hyd i lun neu
ffotograff arall y gallech roi
amcan o faint o bethau sydd yno?



Gair o gyngor: Yr amcangyfrif sy'n bwysig. Gyda'r jiraffs, helpwch eich plentyn
i amcangyfrif drwy ofyn a yw'n gallu gweld grŵp o ddau a grŵp o dri.

Gyda'r hipos, pa mor rhesymol yw'r ateb sy'n bwysig, nid cywirdeb y rhif go iawn.
Er enghraift, os bydd plentyn yn dweud '3', siaradwch am nifer y pennau gallwch
chi eu gweld.

Os bydd plentyn yn dweud '100', siaradwch am sut mae 100 dot yn edrych.

Sylwadau teulu:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Amcangyfrif / rhoi
amcan; cyfrif yn llafar
hyd at 20, efallai mwy.

Sylwadau plentyn:

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk


Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copio, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Adeiladu siapiau 3D




Pecyn
Mathemateg
Teulu

Allwch chi ddod o hyd i bethau o gwmpas y tŷ sy'n siapiau 3D fel y rhain?




Ciwb



Ciwboid



Silindr



Prism triongl

Faint allwch chi ddod o hyd iddynt? Beth sydd yr un fath? Beth sy'n wahanol?

Allech chi adeiladu tŷ, castell neu deml gydag unrhyw un o'r siapiau? Pa siapiau sy'n dda ar gyfer adeiladu? Pam?

Tynnwch lun neu ffotograff o'ch tŷ / castell / teml.

Mae siâp 3D heb ei ddangos – sffêr. Mae pêl yn sffêr. Ydych chi'n meddwl y byddai'n dda adeiladu gyda hwn?

Sylwadau teulu:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Cyfle i'r plant gael datblygu eu sgiliau rhesymu gofodol ym mhob un o'r meysydd mathemateg, gan gynnwys siapiau.

Sylwadau plentyn:

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copio, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669


Patrymau wyau Pasg





Pecyn
Mathemateg
Teulu

Mae Tom yn creu patrymau ar gyfer papur lapio wyau Pasg.

Allwch chi barhau'r patrymau hyn?



Dyma batrwm arall anoddach:



Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copio, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Patrymau wyau Pasg



Pecyn
Mathemateg
Teulu

Wedyn roedd Tom eisiau defnyddio 3 lliw gan roi cynnig ar y patrwm hwn:




Allech chi greu patrwm a siarad amdano?
Gofynnwch i'ch teulu wneud un hefyd a dewiswch y gorau.

Gair o gyngor: Siaradwch am beth sy'n dod nesaf. Fyddai'r un patrwm i'w weld petai'r lliw yn newid ond dim y siâp?

Defnyddiwch iaith fel: wrth ymyl, cyn, trefn, sut wyt ti'n gwybod? Yr un fath, gwahanol.

Dechreuwch gyda phatrymau syml, ac ewch ymlaen i rai mwy cymhleth os ydyn nhw'n rhai hawdd eu hadnabod.



Sylwadau teulu:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Chwilio am batrymau a pherthnasoeedd.

Sylwadau plentyn:

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Elen Benfelen a'r Tair Arth



Aeth Elen Benfelen i mewn i dŷ'r tair arth. Gwelodd dair bowlen o uwdd.

Roedd un fowlen yn fach gyda hanner yr uwdd oedd yn y fowlen ganol.

Roedd un fowlen yn fawr gyda dwbl yr uwdd oedd yn y fowlen ganol.

Gwnewch sosban o uwdd (neu debyg). Allwch chi ei rannu fel bod gan y fowlen ganol ddwbl yr uwdd sydd yn y fowlen fach, a'r fowlen fwyaf gyda dwbl yr uwdd sydd yn y fowlen ganol?

A oes gennych dedi-bêrs (neu deganau meddal eraill) a allai fod yn fabi arth, mami arth a dadi arth?

Gair o gyngor: Siaradwch am hanner, dwbl, dwywaith gymaint, llai, mwy. Gweithgaredd am amcangyfrif, nid mesur yn union, yw hwn. Gallech ddefnyddio llwyau a chyfrif 4, er enghraift, i'r fowlen fach, yna 4 a 4 i'r fowlen ganol, ac yn y blaen.



Sylwadau teulu:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Cyfre i'r plant gael datblygu eu sgiliau rhesymu gofodol ym mhob un o'r meysydd mathemateg, gan gynnwys mesurau.



Sylwadau plentyn:

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk



Edrychwrh ar yr amseroedd ar y cloiciau hyn - faint yw hi o'r gloch?



Allwch chi dynnu llun cloiciau gydag amseroedd arnynt a thynnu llun beth fyddwch efallai'n ei wneud ar yr amser hwnnw?

Gair o gyngor: Siaradwch am yr amseroedd a ddangosir a beth fydd eich plentyn efallai'n ei wneud - gartref neu yn yr ysgol. Siaradwch am amseroedd 'am' neu 'pm'. Er enghraifft gallech fod yn codi o'r gwely am 7am, neu'n mynd i'r gwely am 7pm.

Sylwadau teulu:















Cysylltiad Cwricwlwm:

Defnyddio iaith bob dydd i siarad am amser.

Sylwadau plentyn:

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk



Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copio, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Dawns y Llew o Tsieina



Pecyn
Mathemateg
Teulu

Yn Tsieina, mae Dawns y Llew'n rhan o ddathliadau'r Flwyddyn Newydd. Mae'r dawnswyr mewn gwisgoedd llew coch, mawr. Maen nhw'n dawnsio a chasglu arian mewn amlenni coch. Mae pobl yn meddwl y daw â lwc dda os ydyn nhw'n rhoi arian i'r llew.



Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copio, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Dawns y Llew o Tsieina



Pecyn
Mathemateg
Teulu

Mae'r amlenni hyn yn cynnwys darnau punt:



- Faint sydd ym mhob amlen?
- Faint y mae'r llew wedi'i gasglu i gyd?
- Faint fyddai ganddo pe bai pob darn yn £2?

Gair o gyngor: Anogwch eich plentyn i gyfrif pob amlen ar wahân i ddechrau a sicrhau eu bod yn gallu cyfri'n gywir, yna cyfrwch bob un o'r amlenni gan symud at gyfrif bob yn 2 os yw'r plentyn yn barod.

Sylwadau teulu:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Cyfrif i 20: adnabod pan fydd un maint yn fwy na, llai na neu'r un fath â'r maint arall.

Sylwadau plentyn:

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Her gyfrif




Pecyn
Mathemateg
Teulu

Dowch o hyd i flocs matsys gwag, cynhwysydd bwyd gwag neu debyg.
Rhowch amcan o faint o bethau allech chi ffitio yn ddio.

Heriwrch bawb o'r teulu i ddod o hyd i gymaint o bethau â phosib.

Gair o gyngor: Siaradwch am amcangyfrif niferoedd pethau cyn dechrau casglu eitemau. Penderfynwch a allent fod yr un fath neu'n wahanol. Gwiriwrch flocs sy'n eich gilydd i wneud mwy o ymarfer cyfrif. Meddyliwrch am eitemau tu allan yn ogystal â rhai yn y ty.



Sylwadau teulu:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Cyfrï'n llafar hyd at 20, efallai mwy.

Sylwadau plentyn:

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfrain © National Numeracy 2021. Ni cheir copio, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Lawr y neidr fyny'r ysgol



Pecyn
Mathemateg
Teulu

Bydd angen dis a chownteri bach neu bobl 'cogio bach'. Dechreuwch ar rif 1 a'i gymryd yn eich tro i daflu'r dis. Symudwch eich darn y nifer o weithiau a ddangosir ar y dis - os glaniwch ar waelod ysgol, byddwch yn dringo i'r top. Os glaniwch ar ben neidr, rhaid symud i lawr y gynffon.

Pwy fydd y cyntaf i gyrraedd 100?

Gair o gyngor: Siaradwch am y symudiadau wrth chwarae. Er enghraifft, gofynnwch faint yn fwy o lefydd sydd ei angen i ennill?


Allwch chi gyfrif ymlaen 4 lle?

Fyddwch chi'n dringo neu'n cwympo?

Pwy sydd gyntaf rŵan?

Pa ysgol yw'r hiraf?

Pa neidr ydyn ni ddim eisiau glanio arni?



Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk


familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copio, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Lawr y neidr fyny'r ysgol



Pecyn
Mathemateg
Teulu



Sylwadau teulu:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Cyfrif yn llafar ar ôl
20, adnabod patrwm
y system gyfrif.
Claddu esgyrn

Sylwadau plentyn:

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copio, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Claddu esgyrn




Pecyn
Mathemateg
Teulu

Mae Pero'r ci bach wedi gwneud 4 twll yn yr ardd i gladdu ei hoff esgyrn. Mae ganddo 8 asgwrn.

Faint o wahanol ffyrdd allwch chi ddod o hyd iddo gladdu ei 8 asgwrn? A oes ffordd y gallai'r tyllau i gyd dderbyn yr un faint o esgyrn?

Gair o gyngor: Tynnwch lun 4 twll a thorri'r esgyrn allan (neu ddefnyddio'r un faint o gownteri) fel bo'ch plentyn yn gallu eu symud o gwmpas a chyfrif. Os yw'n dod o hyd i bentyrrau cyfartal, anogwch gyfrif bob yn 2.



Mae nifer o bosibiliadau anghyfartal ond dim ond un pentwr cyfartal. Nid dod o hyd i'r holl bosibiliadau yw'r nod ond arbrofi a siarad am grwpiau posib.



Sylwadau teulu:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Bondiau rhif hyd at 10; cymharu meintiau; trafod sut y gellir dosbarthu meintiau'n gyfartal.

Sylwadau plentyn:

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Dyblau hyd at 10



Pecyn
Mathemateg
Teulu

Chwaraewch gêm o ‘gwneud y dwbl’. Gallech ddefnyddio:

- Y Ffrâm Ddeg isod neu flocs wyau gwag gyda 10 ‘twll’ yn ddo
- 10 o bethau bach fel cownteri, pasta sych, cerrig neu ddail

Mae'r chwaraewr cyntaf yn rhoi eitemau yn un rhes o'r Ffrâm Deg neu'r bocs wyau.

Peidiwch â rhoi mwy nag un eitem ym mhob lle! Rhaid i'r chwaraewr arall roi'r un faint yn union yn y rhes arall.

Faint sydd yno i gyd felly?

Siaradwch am ‘ddau grŵp o...’, ‘dwbl’ a ‘i gyd / gyda’i gilydd’.

Pa ddyblau rhif sy'n gwneud 10?



Sylwadau teulu:

Cysylltiad Cwricwlwm:

Creu dealltwriaeth o fondiau rhif hyd at 10, yn defnyddio 10 ffrâm, gan gynnwys ffeithiau dwbl.

Sylwadau plentyn:


Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Dyblau hyd at 10



Pecyn
Mathemateg
Teulu



Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copio, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669


Treialon cŵn defaid



Pecyn
Mathemateg
Teulu

Mae Pero'n gi defaid. Rhaid iddo hel 12 o ddefaid i dair corlan o wahanol faint. Rhaid i bob corlan gynnwys nifer wahanol o ddefaid – rhaid i'r gorlan fwyaf gynnwys y mwyaf o ddefaid a'r gorlan leiaf y nifer leiaf o ddefaid. Ni all yr un gorlan fod yn wag.

Faint o ddefaid allai Perogeisio eu hel i bob corlan? Meddyliwch am gymaint o wahanol ffyrdd â phosib.



Gair o gyngor: Defnyddiwch gownteri neu siapiau pasta ar gyfer defaid gan gwblhau'r gweithgaredd yn ymarferol i roi cynnig ar wahanol gyfuniadau. Siaradwch am fwy na, llai na, a gwerth sero os nad oes r'un ddafad mewn corlan. Dangoswch hyn fel darluniau neu yn ôl dewis y plentyn (gall rhai dynnu llun ac eraill wneud sýms - datrys y broblem a siarad sy'n bwysig).

Sylwadau teulu:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Cyfrif i 20; cymharu meintiau; trafod sut i ddosbarthu meintiau; beth y mae'r plentyn yn sylwi arno a 'rholi cynnig arni'.

Sylwadau plentyn:

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk


familymathstoolkit.org.uk

Y ffarmwr a'i wartheg



Mae'r ffarmwr yn hoffi rhoi ei wartheg mewn beudai wedi nos i'w cadw'n ddiogel a chynnes.

Mae ganddo ddau feudy.



Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copio, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Y ffarmwr a'i wartheg



Pecyn
Mathemateg
Teulu


Defnyddiwch gownteri (neu resins, siapiau pasta) fel gwartheg.

Os oes gan y ffarmwr 6 buwch, sut allai eu rhannu'n gyfartal rhwng y ddau feudy? Rhowch eich cownteri yn y beudai a'u cyfrif – faint sydd ym mhob beudy?

Beth os byddai ganddo 10 buwch? 8? 14?

Beth fyddai'n digwydd os byddai ganddo 9?

Gair o gyngor: Defnyddiwch yr eirfa cyfartal / hafal a siarad am beth y mae'n ei feddwl, am faint o wartheg y dechreuwch â nhw a faint sydd ym mhob grŵp. Cyfrwch wrth roi'r 'gwartheg' yn y beudai. Siaradwch am 3 a 3 fel rhannau o 6. Siaradwch am ddyblau, un yn fwy, un yn llai.



Sylwadau teulu:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Cymharu meintiau mewn gwahanol gyddestun, adnabod pan fydd un maint yn fwy na, llai na neu'r un faint, gan gynnwys odrifau ac eilrifau.

Sylwadau plentyn:

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Tri mochyn bach




Pecyn
Mathemateg
Teulu

Mae 2 fochny bach wedi prynu pitsa i fynd ar bicnic.

Sut allen nhw ei rannu'n gyfartal fel
bod pob mochyn yn cael yr un faint?

Tynnwch linell ar y pitsa hwn i ddangos ble fydden
nhw'n ei dorri? Faint fyddai pob un yn ei gael?



Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copio, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669

Tri mochyn bach






Pecyn
Mathemateg
Teulu

Mae mochyn bach arall yn cyrraedd, a'r blaidd mawr drwg. Sut allen nhw rannu'r pitsa rhwng y pedwar ohonynt?

Maen nhw'n penderfynu prynu 2 bitsa. Sut fyddan nhw'n rhannu'r ddau bitsa i roi siâr gyfartal i bawb?

Allwch chi feddwl am fwyd sydd gennych yn y tŷ sydd angen ei dorri'n ddarnau?



Sylwadau teulu:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Cyfile i'r plant gael datblygu eu sgiliau rhesymu gofodol ym mhob un o'r meysydd mathemateg, gan gynnwys mesurau.

Sylwadau plentyn:

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Dail yr haf



Pecyn
Mathemateg
Teulu

Allwch chi ddod o hyd i un fyrach na'ch bys?

Darluniwch o'u cwmpas. Allwch chi ddod o hyd i ddeilen rhwng maint y ddwy?

Mae gan ddeilen coeden fasarn 5 pwynt.
Allwch chi dynnu llun 5 deilen fasarn?

Faint o bwyntiau sydd i gyd?

Gair o gyngor: Siaradwch am hirach na, byrrach na, gan ddefnyddio unedau ansafonol i fesur (fel dwylo neu fysedd), a fydd yn wahanol i bob aelod o'r teulu?

Anogwch eich plentyn i bwyntio a chyffwrdd wrth gyfrif. Yna eu hannog i gyfrif bob yn 5.



Sylwadau teulu:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Cyfle i'r plant gael datblygu eu sgiliau rhesymu gofodol ym mhob un o'r meysydd mathemateg, gan gynnwys mesurau.

Sylwadau plentyn:

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk




Cynhwysion

- 250g blawd plaen
- 125g o fenyn
- 125g siwgr brown
- 1 wy bach wedi'i guro
- 2 llond llwy de o sbeisys cymysg
- Pinsiad o halen

Ar gyfer yr eisin:

- 125g o siwgr eisin
- 1-2 llond llwy fwrdd o ddŵr poeth
- Lliwiau bwyd os dymunwch



Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copio, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669



Popty: 190°C/375°F/Nwy Marc 5. Irwch ddau drei popty.

- Curwch y menyn a'r siwgr nes ei fod yn fflyfflyd. Curwch yr wy bob yn ychydig.
- Gogrwch y blawd, halen a'r sbeis i mewn. Cymysgwch bopeth yn dda i wneud pelen o does.
- Taenwch ychydig o flawd ar fwrdd a rholbren. Yna rholiwch y toes nes ei fod tua $\frac{1}{2}$ cm o drwch (hyd ewin eich bys bach).
- Torrwch y toes yn siapiau. Casglwch unrhyw does sydd ar ôl a'i rolio eto i wneud mwy o siapiau.

Gair o gyngor: Siaradwch am yr un peth â, gwahanol, mwy na, llai na, hafal i, dwbl, beth fyddai'n digwydd os..., amser, pa mor hir, poeth, newidiadau yn y toes – meddal nes iddo gael ei goginio.

Os nad yw'n bosibl gwneud bisgedi, rhannwch fathau eraill o goginio â'ch plentyn a siarad am faint o gynhwysion.

Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Cyfle i'r plant gael datblygu eu sgiliau rhesymu gofodol ym mhob un o'r meysydd mathemateg, gan gynnwys mesurau; datblygu geirfa y bydd sgiliau mathemateg yn tyfu onno.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Poced Chetan



Pecyn
Mathemateg
Teulu

Mae gan Chetan ddarnau o arian yn ei boced.
Mae ganddo 3 darn a phob un naill ai'n 1c,
2c neu'n 5c.

Faint allai fod ganddo i gyd?

Faint o wahanol atebion allwch chi feddwl amdanyst?

Gair o gyngor: Bydd defnyddio arian go iawn yn helpu eich plentyn; siaradwch am gyfanswm gwerth y darnau arian.



Sylwadau teulu:

Sylwadau plentyn:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Cyfle i'r plant gael datblygu eu sgiliau rhesymu gofodol ym mhob un o'r meysydd mathemateg, gan gynnwys mesurau.

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Cost eis-loli



Pecyn
Mathemateg
Teulu

Mae Meirion eisiau prynu eis-loli.


Mae'n costio 5c.

Pa ddarnau o arian allai eu defnyddio i dalu am y loli?

Mewn faint o wahanol ffyrdd y gallwch dalu 5c?

Gair o gyngor: Ceisiwch weithio i fethodoleg gan ddechrau gyda darnau 1c a datblygu'r syniad o gyfnewid $2 \times$ darn 1c i wneud darn 2c. Sut wyddoch eich bod wedi meddwl am yr holl bosibiliadau?

Os yw hyn yn hawdd i'ch plentyn, gofynnwch beth fyddai'n digwydd pe bai ganddi ond 10c?



Sylwadau teulu:



Cysylltiad Cwricwlwm:

Cyflie i'r plant gael datblygu eu sgiliau rhesymu gofodol ym mhob un o'r meysydd mathemateg, gan gynnwys mesurau.

Sylwadau plentyn:

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Atebion i Weithgareddau Dosbarth Derbyn



Pecyn
Mathemateg
Teulu

Dau gi

2 gynffon; 2 drwyn;
4 clust; 1 bêl; 8 coes.

Jiraffs a hipos

Mae 5 jiráff ac 20 hipo.

Te-parti Cyw

5 o ‘bobl’ i gyd felly 5
o bopeth – heblaw am y
tebot a’r ciwbiau siwgr.

Trychfilod

$2+1 = 3$
 $3+3 = 6$
 $6+1=7$
0+8 neu 1+7 neu 2+6 neu
3+5 neu 4+4=8

Parau o sanau

18 o sanau = 9 pâr

Poced Chetan

Mae 10 o wahanol
feintiau’n bosib
5c/5c/5c
5c/5c/2c
5c/5c/1c
5c/2c/2c
5c/2c/1c
5c/1c/1c
2c/2c/2c
2c/2c/1c
2c/1c/1c
1c/1c/1c/

Claddu esgyrn

15 o bosibiliadau (13
anghyfartal) ond heb
ddisgwyl i blant ddod o hyd
i bob un.

Treialon cŵn defaid

7 o bosibiliadau
9, 2, 1
8, 3, 1
7, 4, 1
7, 3, 2
6, 5, 1
6, 4, 2
5, 4, 3

Cost eis-loli

4 o bosibiliadau
5c
2c, 2c, 1c
2c, 1c, 1c, 1c, 1c
1c, 1c, 1c, 1c, 1c

Ffarmwr a’i fuchod

$6 = 2 \times 3$
 $8 = 2 \times 4$
 $10 = 2 \times 5$
 $14 = 2 \times 7$
 $9 = 2 \times 4$ ac 1 ar ôl

Os oes gennych gwestiynau, anfonwch e-bost at:
enquiries@nationalnumeracy.org.uk

familymathstoolkit.org.uk

Hawlfraint © National Numeracy 2021. Ni cheir copio, llogi na benthyg yn fasnachol. Rhif cofrestru'r elusen: 1145669